# Cyngor Cymuned Llandderfel

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Mehefin 3ydd 2025 yn Neuadd Sarnau. Yn bresennol oedd Alwyn Jones (cadeirydd), Maldwyn Jones, Bethan Thomas, Gwenda Morris, Gwynedd Jones, Gary Thomas, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Eifion Davies, Rita Jones, Iolo V. Evans a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dewi Pritchard a'r Cyng. Elwyn Edwards.

Cynllun Fferm Wynt Foel Fach arfaethedig.
Croesawyd swyddogion Coriolis Energy a Chadno Communications i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ar y prosiect gan gynnwys yr isod,
i) Am leihau'r nifer o dyrbin's i 10 gyda newidiadau i'w maint i gydfynd a'r tirlun.
ii) Am symud yr is -orsaf i leoliad newydd.
iii) Nifer o archwiliadau o'r safle yn digwydd ar hyn o bryd ac adroddiadau yn cael eu paratoi.
iv) Dim manylion pellach ar hyn o bryd am y ffordd bydd y trydan yn cael ei gario oddi ar y safle.
v) Bwriad i gynnal diwrnodau agored ym mis Medi, manylion a lleoliadau i'w gadarnhau.
vi) Gobeithio cyflwyno'r cais cynllunio ym mis Mawrth 2026.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Mai a chafwyd yn gywir.**

**ii) Datgan Buddiant.**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.**

a) Ymateb i'r cwynion a dderbyniwyd yn y cyfarfod diwethaf:-
i) Cais am olau stryd wrth y lloches bws yn Llanfor – cafwyd cadarnhad y byddai goleuadau solar newydd yn cael ei gosod cyn y gaeaf.
ii) Sbwriel yn y gilfan rhwng Tŷ Nant a Cynlas, Cefnddwysarn – cafwyd addewid y byddai'r sbwriel yn cael ei glirio.
iii) Cwyn cyffredinol fod darnau o geir/sbwriel ddim yn cael ei glirio ar ôl damweiniau – eglurodd yr Asiantaeth Cefnffyrdd nad oeddynt yn cael ei hysbysu bod tro bod damwain ac felly ddim yn ymwybodol fod angen clirio unrhyw falurion.

b) Archwilio Asedau.
Roedd y cynghorwyr wedi archwilio'r asedau ac roedd popeth mewn cyflwr da arwahan fod angen gwneud man waith i loches bws Llanfor. Cytunwyd i ofyn i adeiladwr lleol i wneud y gwaith.

**iv) Gohebiaeth.**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.
i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd.
ii) Clybiau Ieuenctid Cymunedol.
iii) Cronfa 'Gwynedd Ni' i Gynghorau Tref/Cymuned – yn dilyn trafodaeth cytunwyd i holi'r swyddogion ynglŷn â gwneud cais am arian i wneud gwelliannau i fynwent Frongoch.
iv) Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro – Llandderfel 13/06/25.

b) Parc Cenedlaethol Eryri.
i) Cronfa Cymunedau Eryri.
ii) Cynllun Datblygu Lleol Eryri Newydd (2026-2041)



Arwyddwyd: ………………………………………….   Dyddiad: …………………………………..

c) Amrywiol.
i) Tesco Stronger Starts Grant.
ii) Clwb Criced Y Bala – cais am gefnogaeth.

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y cais canlynol:-
C25/0366/04/LL - Codi dau adeilad i storio deunyddiau garddio, codi cwrt "padel" a chodi modurdy newydd. Fron Heulog, Llandderfel.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiadau lleol.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Archwiliad Mewnol a'r Ffurflen Flynyddol.
Roedd Cyngor Gwynedd wedi archwilio'r cyfrifon a chafwyd cadarnhad i sicrwydd yn nhrefniadau llywodraethu a datganiadau cyfrifyddu'r Cyngor. Cytunwyd yn unol â gofynion y datganiadau Cyfrifyddu a Llywodraethu yn y ffurflen Archwiliad Blynyddol. Adroddodd y Clerc y byddai'n nawr yn anfon yr holl ddogfennau roedd Swyddfa Archwilio Cymru eu hangen ar gyfer yr archwiliad allannol.Cytunwyd i arddangos yr hysbysiad archwilio yn y mannau perthnasol.

b) Taliadau.
Cytunwyd i dalu canlynol –
i) Y Cyfnod (hysbyseb y mynwentydd)

**vii) Materion lleol.**

a) Eglwys St. Mor, Llanfor.
Roedd wedi dod i sylw'r Cyngor fod yr eglwys ar werth. Cytunwyd y dylid sicrhau fod manylion yr hawliau tramwy ayyb yn gywir gyda'r asiant tai.

b) Melinau gwynt Braich Ddu.
Roedd y clerc wedi derbyn cwyn gan un o'r trigolion lleol fod lefelau swn yn uwch na'r arfer. Cafwyd cadarnhad fod peiriannydd wedi ei alw allan i ddatrys y broblem.

c) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Canghennau'r coed o dycha neuadd Sarnau i gyfeiriad Ty'n Ffridd yn tyfu drosodd i'r ffordd.
ii) Car wedi'i adael yn y gilfan ger Braich Ddu.
iii) Carreg wedi disgyn o'r wal rhwng Cynlas a Thŷ Nant, Cefnddwysarn.
iv) Twll yn y ffordd gyferbyn a mynedfa pentref Sarnau.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Gorffennaf 1af am 7.30 y.h. yn Neuadd Sarnau.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..